



THE LEARNED SOCIETY OF WALES CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

THE NATIONAL ACADEMY – CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
YR ACADEMI GENEDLAETHOL – YN DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

Anerchiad y Llywydd

Cymdeithas Ddysgedig Cymru 23 Mai 2018

Croeso i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yr wythfed.

Croeso cynnes i chi i wythfed Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ddysgedig Cymru, academi genedlaethol Cymru. Hoffwn estyn llongyfarchiadau a chydabyddiaeth arbennig i'r 42 Cymrawd sydd newydd eu hethol. Mae cyfanswm y gymrodoriaeth bellach wedi cyrraedd 500. Mae'r etholiad yn dangos cyfoeth y dalent a enwebwyd.

Fel arfer hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Cyngor a'r Swyddogion am eu stiwardiaeth o'r Gymdeithas dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â phawb sydd wedi cyfrannu mewn pwyllgorau, paneli craffu a gweithgareddau amrywiol. Unwaith eto hoffwn ddiolch i'n staff, ac i Dr Sarah Morse yn benodol, am eu cyfraniadau rhagorol cyson dros y flwyddyn.

Hoffwn fynegi ein diolch arbennig i'r Athro Peter Halligan a wasanaethodd fel Prif Weithredwr am dair blynedd. Daeth â'i brofiad o Addysg Uwch i'r rôl a chwaraeodd ran fawr yn helpu i ehangu gorwelion a gweithgareddau'r Gymdeithas. Mae ein cyhoeddiad 'Cymru a'r Byd' yn tystio i hyn. Cyfarwyddodd yr ymchwil gyda staff y Gymdeithas, gan lunio dogfen bwerus yn tanlinellu ansawdd, maint ac effeithiolrwydd ymchwil a gynhelir yng Nghymru. Roedd y Gymdeithas felly'n eiriolwr cryf dros Gymru. Dymunwn bob llwyddiant i Peter fel Prif Wyddonydd Llywodraeth Cymru. Dyma fy nghyfle cyntaf yn gyhoeddus i groesawu ei olynydd, Martin Pollard, a fu cyn hyn yn Brif Weithredwr Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ac a ddaw â phrofiad cymwys i'r rôl.

Mae'r cyfarfod hwn yn nodi diwedd gwasanaeth nodedig dau o Swyddogion y Gymdeithas, yr oeddent ill dau'n Gymrodyr sefydlu. Daw tymor yr Athro Ole Petersen yn Is-Lywydd i ben. Bu ei enw da rhagorol a'i brofiad mewn academiâu Ewropeaidd - mae'n Is-lywydd Academia Europaea - yn gymorth i ddatblygu'r Gymdeithas. Mae'r Athro John Wyn Owen wedi gwasanaethu fel Trysorydd ers chwe blynedd gan weithio'n ddifflino i'r Gymdeithas. Does neb wedi gwneud mwy mewn cynifer o ffyrdd dros Gymru. Mae'r ddau'n haeddu ein diolch diffuant. Diolch eich dau.

Mae eich Gymdeithas mewn iechyd da fel mae'r adroddiadau a gyflwynwyd yn cadarnhau. Rydym yn ddiolchgar am y gymorth ariannol a dderbyniwn gan y Cymrodyr a gan bob un o brifysgolion Cymru, yn

ogystal â gan roddwyr eraill. Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac Airbus wedi rhoi cymorth penodol i fedalau a phrosiectau eraill. Edrychwn ymlaen at yr enillion a addewir yn sgil Adolygiad Diamond maes o law. Mae cymorth o'r fath sydd wedi'i dargedu yn gyson ag annibyniaeth y Gymdeithas. Mae cynladwyedd ariannol yn parhau'n amcan hollbwysig ac yn wir yn ofyniad ar ein Cymdeithas ifanc. Yn y pen draw, adnoddau sy'n pennu cwmpas ein huchelgais. Ceir digon o ansicrwydd o'n blaen sy'n golygu yn fwy nag erioed ein bod yn gorfod cydbwysu amcanion dymunol ag asesiad o'r risgiau sy'n codi.

Fel academi genedlaethol Cymru rhaid i ni fod yn weithgar ar draws ac ar ran Cymru gyfan. Yn benodol rydym ni'n ceisio sicrhau bod gweithgaredd gweladwy ym mhob prifysgol. Yn hyn o beth, mae rôl y swyddogion cyswllt yn hanfodol. Maent yn annog gweithgaredd y Gymdeithas, yn cyfathrebu gyda Chymrodyr, a gobeithio yn canfod talent. Rydym ni'n gweithio i gefnogi a chryfhau eu rôl er mwyn i ni gyfoethogi gwerth y Gymdeithas i Gymrodyr, ac yn eu tro, cyfraniadau'r Cymrodyr i'r Gymdeithas.

Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol wedi adolygu gweithgareddau'r flwyddyn ddiwethaf. Rydym ni wedi cynnal rhythm cyson o gylch etholiadol, dyfarnu medalau, barn wybodus, darlithoedd a llawer mwy. Rwy'n credu ei bod yn rhestr ragorol o gyflawniadau. Wrth edrych yn ôl, mae llawer yn cael ei gyflawni, a mwy bob blwyddyn.

Un o brosiectau allweddol y Gymdeithas yw arwain yr ymgyrch am gydnabyddiaeth gynyddol i Astudiaethau Cymreig. Am y tro cyntaf ceir un corff cenedlaethol a ddaw â rhanddeiliaid ac ymarferwyr at ei gilydd ar draws y sectorau. Rydym ni wedi cynnull Grŵp Llywio i nodi'r heriau allweddol, a'r cyfleoedd. Mae gwaith wedi dechrau eisoes ar y Cwricwlwm Cymreig newydd, blaenoriaeth sy'n tynnu ar arbenigedd Cymrodyr perthnasol. Bwriad yr ymgyrch Astudiaethau Cymreig ehangach yw dangos y gwaith rhagorol nad yw'n cael sylw na'i werthfawrogi'n aml yn y maes, a dod ag ymchwilwyr ar draws y disgyblaethau at ei gilydd. Mwy nag erioed mae angen i Gymru nawr werthfawrogi lluosogrwydd ei naratifau er mwyn cryfhau ei hyder cenedlaethol. Y mwyaf rydym ni'n deall pwys ydym ni, ac o ble rydym ni'n dod, yna bydd y genedl mewn gwell sefyllfa i wynebu'r dyfodol.

Mae, a bydd, Brexit yn bwysig i'r Gymdeithas. Mae'r canlyniadau i AU yn taro ar natur greiddiol prifysgol. Mae symud rhydd staff a myfyrwyr wrth galon y system ac yn elfen allweddol o lwyddiant prifysgolion Prydain. Yn ogystal mae gallu manteisio ar raglenni ymchwil yr Undeb Ewropeaidd wedi dod â buddion incwm, ond hefyd mae wedi ehangu cydweithio ymchwil yn enfawr drwy Ewrop gyfan ac yn benodol yng Nghymru. Mewn adroddiad ar y DU yn 2017 *Cymru oedd â'r gyfran uchaf o gydweithio ar draws gwledydd cyfansoddol y DU, gydag yn agos i 70 % o gyhoeddiadau'n cynnwys awduron o'r tu allan i Gymru.*

Mae'r rhain yn faterion rydym ni'n eu rhannu gyda chwaer academiâu. Mae'r saith wedi bod yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, yn cyflwyno ar y cyd i lywodraethau. Rydym ni hefyd wedi ymuno â datganiad Ewrop gyfan dan arweiniad Sefydliad Wellcome. Mae symudedd talent yn hanfodol i gynnal ymchwil ac arloesi sy'n torri tir newydd. Rhaid i'r DU barhau i allu manteisio'n rhydd ar y gronfa o dalent ar draws y DU sydd ar hyn

o bryd yn darparu 17% o'n staff prifysgol a thros ddwy ran o dair o sefydlwyr cwmnïau newydd yn y DU. Dylai ymchwilwyr o Ewrop allu gweithio, cydweithio a theithio'n rhydd ar draws ffiniau. Rwyf i'n ei ystyried yn hynod o ddymunol i'r DU gyfrannogi mewn rhaglenni UE ar ôl 2020. Dylid darparu ar gyfer hyn yn y Cytundebau rhwng y DU/UE yn y dyfodol sydd dan drafodaeth neu mewn cytundeb pwrpasol ar gydweithio ar ymchwil ac arloesi.

Wrth gwrs, mae gan ymchwilwyr Prydeinig draddodiad o gydweithio'n fyd-eang. Mae'n hanfodol y dylai hyn barhau a chynyddu. Ond mae angen i ni fod yn fyd-eang ac yn Ewropeaidd - nid yw'n ddewis deuol. Mae llawer mwy i'w weld os ydych chi'n edrych tuag allan yn hytrach nag i mewn.

Dangosodd 'Cymru a'r Byd' fod cynnyrch ymchwil yng Nghymru wedi cynyddu'n helaeth dros y degawd diwethaf. Nid oedd yn gyd-ddigwyddiad bod hyn yn dilyn gwariant sylweddol gan Gronfeydd Strwythurol yr UE i gefnogi prifysgolion Cymru.

Wrth gwrs mae goblygiadau Brexit yn mynd ymhell y tu hwnt i ymchwil. Rydym ni wedi bod yn egluro'r goblygiadau i fodel datganoli, a'r angen i'r trefniadau ôl-Brexit adlewyrchu'r dosbarthiad pwerau sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan San Steffan. Mae aelodaeth o'r UE yn golygu bod rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu'n gyson â chyfraith yr UE a gweithredu ar benderfyniadau'r UE ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Pan fyddwn ni'n gadael yr UE caiff y cyfyngiadau hynny eu codi, gan ddibynnu ar delerau ein hymadawiad. Ond mae'r pwerau datganoledig yn aros fel y'u deddfwyd gan y Senedd. Nid yw gadael yr Undeb Ewropeaidd yn lleihau'r pwerau y mae San Steffan wedi'u trosglwyddo i Gaerdydd.

Mae hwn yn faes cymhleth ac mae angen cytundeb rhwng llywodraethau'r DU. Mae angen datrys hyn yn wleidyddol mewn modd sy'n adlewyrchu buddiannau a darpariaethau cyfansoddiadol y pedair cenedl gyfansoddol. Mae'r Gymdeithas Ddysgedig wedi bod yn cynnig cyngor ar y materion hyn ac yn aelod o grŵp cynghori'r Prif Weinidog ar Brexit.

Her enfawr i Gymru fydd diwedd gwariant y Gronfa Strwythurol. Roedd statws Categori 1 yn golygu symiau enfawr i Gymru, £5.3 biliwn o 2000-2020 gan gynnwys i Addysg Uwch. Does dim amheuaeth y gallai rhywfaint o'r arian hwn fod wedi'i wario'n well. Ond yn hanfodol fe'i dyrannwyd i feysydd y pennwyd eu bod mewn angen. Mae'n gwestiwn mawr sut y caiff yr arian a gyfrannir ar hyn o bryd i gyllideb yr UE ei ddyrannu o fewn y DU ar ôl Brexit. Rydym ni i gyd wedi clywed am y £350m yr wythnos i'r GIG. O bersbectif Cymru, dangoswyd bod fformiwla Barnett, sy'n cyfrif yn ôl poblogaeth yn hytrach nag anghenion, yn annheg. Serch hynny, does dim olynnydd wedi'i gynnig.

Mae'r rheini sydd o blaid Brexit yn canmol manteision masnach fwy ryddfrydol, gyda'r DU yn cystadlu mewn marchnadoedd allforio newydd heb rwystrau rheoleiddio'r UE. Fe welwn beth a ddaw. Fodd bynnag bydd heriau'n cyd-fynd â chyfleoedd, nid lleiaf yn nhermau'r refeniw sydd ar gael i Gymru'n gyffredinol ac i addysg yn benodol. Mae Llywodraeth Prydain eisoes wedi rhagweld y canlyniadau tymor hir ar ymchwil. Tan 2021 bydd £2.3 biliwn ar gael ar gyfer ymchwil ac arloesi yn y DU. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm gwariant yr

UE yn y DU sydd o ddeutu £1.5 biliwn, gan gynnwys y cymorth Cronfa strwythurol. Wrth gwrs mae croeso i'r cynnydd, ond caiff y cyllid ei reoli gan UKRI a'i ennill yn gystadleuol. Rwyf i wedi ysgrifennu at Syr Mark Walport, Cadeirydd UKRI, yn tynnu sylw at yr ymrwymiad i ystyried datganoli, a dadlau y dylai daearyddiaeth a'r ymrwymiad i ledaenu ffyniant ar draws y DU hefyd fod yn ffactorau wrth ddsbarthu cyllid.

Ond mae'r neges i Gymru ac i ymchwil wrth wasanaethu ffyniant Cymru yn y dyfodol yn syml - bydd yn amgylchedd llawer mwy llym a mwy cystadleuol a bydd rhaid i ni fod ar ein gorau. Rwyf i'n hyderus bod gennym ni'r dalent a'r sgiliau i wneud hynny, ond bydd angen newid meddylfryd. Rwyf i'n nodi ein bod ar hyn o bryd yn ennill 3% yn unig o gyllid Innovate UK o'i gymharu â 24% yn yr Alban.

Yng Nghymru cawsom Adolygiad Reid sydd yn cael ei ystyried gan weinidogion ar hyn o bryd. Mae'n gywir i bwysleisio pwysigrwydd ymchwil ac arloesi o safon uchel i economi Cymru ynghyd ag agwedd fwy strategol yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid. Mae Reid yn bwysleisio y caiff cyllid UKRI ei ddyfarnu'n gystadleuol a bod rhaid i ymchwil yng Nghymru allu ymateb. Os nad yw Cymru'n sicrhau'r cyllid hwn, bydd yn mynd i rywle arall yn y DU. Nid yw hyn yn newydd, ond yn fwy nag erioed, bydd curo'r gwrthwynebwyr yn hanfodol i sicrhau cyllid ymchwil.

Rwyf i'n sôn am bob math o ymchwil. Mae'r celfyddydau, y dyniaethau a'r gwyddorau cymdeithasol yn hanfodol i economi ffyniannus, diwylliant bywiog a chymdeithas gydlynol. Maent yn helpu i sicrhau'r sgiliau sy'n hanfodol i'r sector gwasanaethau, sy'n cynnwys 80% o economi'r DU a 75% o economi Cymru. Mae'r sgiliau hyn hyd yn oed yn fwy hanfodol pan fo newidiadau technolegol, cymdeithasol-economaidd, geowleidyddol a demograffig eisoes yn trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio ac yn byw. Mae cyfathrebu a chydweithio, ymchwil a dadansoddi agweddau ac ymddygiadau, persbectif byd-eang a dealltwriaeth ryng-ddiwylliannol yn rhai o'r materion sy'n berthnasol i ddyfodol cymdeithas ddemocrataidd.

Mae'r ystyriaethau hyn yn tanlinellu'r heriau sy'n wynebu Prifysgolion Cymru. Nid oes modd gwarantu cyllid gyda'i breimiwm ar recriwtio myfyrwyr. Mae newidiadau ar y ffordd yn strwythur y Cyngor Cyllido Addysg Uwch, y byddwn ni'n cyflwyno tystiolaeth arnynt. Ymhellach efallai y bydd canlyniadau yng Nghymru yn sgil yr Adolygiad o Ffioedd Myfyrwyr yn Lloegr a gweithrediad y Swyddfa newydd i Fyfywyr. Gall y sector yng Nghymru edrych ymlaen at gynnwrf cynyddol a bydd angen cefnogaeth.

Mae eich Cyngor wedi bod yn ystyried Cynllun Strategol y Gymdeithas ar gyfer 2018 - 2023 a'r blaenoriaethau y dylid eu mabwysiadu yn ystod y cyfnod hwn. Ar hyn o bryd mae tri amcan yn llywio gwaith y mwyafrif o academiâu - cydnabod teilyngdod rhagorol, cefnogi ymchwil ac ysgolheictod a bod yn ffynhonnell o gyngor annibynnol arbenigol. Bydd y rhain yn parhau.

Mae pedwerydd amcan yn berthnasol yn benodol i Gymru yn fy marn i. Dylai'r Gymdeithas, ac yn enwedig ei Chymrodyr, fod yn ysbrydoliaeth, yn destun balchder, nid yn unig i ymchwilwyr eraill, ond yn ehangach. Mae angen uchelgais ar Gymru i nodi a meithrin talent beth bynnag yw'r dalent benodol, a rhoi cyfle iddi ffynnu. Mae'r rhan fwyaf o academyddion yn gwneud hyn yn naturiol, gan arwain a mentora cydweithwyr. Yn

naturiol dylai cymdeithas ddarparu cydraddoldeb cyfle i bawb a helpu'r difreintiedig. Ond roedd yn braf gweld Kirsty Williams yn ddiweddar yn cydnabod hefyd bod angen annog y dawnus a'r mwy talentog. Oes gennym ni ddigon o uchelgais a dyhead yng Nghymru heddiw?

Rwyf i'n credu y gall y Gymdeithas, ac yn arbennig y Cymrodyr, chwarae rhan gadarnhaol iawn fel enghreifftiau o gyflawniad a thalent. Hoffwn i ni wneud mwy mewn ysgolion. Rydym ni eisoes wedi dechrau. Rydym ni'n datblygu cynllun peilot gyda Rhwydwaith Seren yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, a gyflwynir ddiwedd mis Mehefin.

Nod y prosiect hwn yw sicrhau sgiliau astudio annibynnol i ddisgyblion y Fagloriaeth Gymraeg er mwyn iddynt ragori mewn Addysg Uwch. Bydd y cwrs preswyl deuddydd yn cyflwyno disgyblion y Fagloriaeth i ymchwil ar lefel israddedig a chysylltu'r disgyblion â myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwilwyr gyrfa gynnar a fydd yn gweithredu fel mentoriaid, yn cefnogi'r disgyblion wrth iddynt baratoi eu Prosiect Bagloriaeth Unigol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r cydlynnydd rhanbarthol i ddatblygu'r cynllun, gan nodi anghenion rhwydwaith Seren Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro – yn benodol bylchau mewn sgiliau ymchwil ac astudio, a darparu mynediad at arbenigedd a ffigurau sefydledig yn newis feysydd y disgyblion.

Rydym yn gobeithio y bydd y cynllun peilot hwn yn tyfu'n rhaglen sy'n crisialu uchelgais ac sy'n ysbrydoli pobl ifanc yng Nghymru i wneud y gorau o'u cyfleoedd addysg a hyfforddiant. Hoffem roi cyfle i'n Cymrodyr i gyfrannu. Yn Lloegr dechreuodd Robert Peston 'Speakers for Schools', lle mae unigolion talentog yn cynnig cyflwyno un neu ddau anerchiad y flwyddyn mewn ysgolion. A fyddai Cymrodyr, yn enwedig y rheini sydd â llai o alwadau academiaidd, yn barod i wneud yr un peth yng Nghymru? Gydag ychydig o weinyddu, gallai'r Gymdeithas hwyluso dod â Chymrodyr parod ac ysgolion â diddordeb at ei gilydd.

Mae'r Gymdeithas wedi annog a chefnogi Crwsibl Cymru. Rydym ni'n dal yn awyddus i ddatblygu Academi Ieuencid, i ddod ag arweinwyr newydd o feysydd gwyddoniaeth, y celfyddydau a'r dyniaethau at ei gilydd, ynghyd â'r proffesiynau a chymdeithas sifil. Byddai'n gweithredu fel llwyfan i entrepreneuriaid, gweithwyr proffesiynol ac academyddion ifanc arloesol i ddatblygu llais cydlynol a dylanwadol, ac ymdrin â'r materion mwyaf heriol sy'n wynebu cymdeithas yng Nghymru. Mae'r cynllun yn barod ond mae angen cymorth dyngarol penodol i'w roi ar waith.

Ym mis Mehefin disgwylir i'r cyngor fabwysiadu'r Cynllun Strategol newydd ynghyd â chynllun gweithredu i gyflenwi'r blaenoriaethau a bennwyd. Mae'r gwaith hwn yn tynnu ar yr Adolygiad Rhanddeiliaid a gynhaliwyd gennym y llynedd. Ceir awydd clir o blith rhanddeiliaid a'n Cymrodyr ar i'r Gymdeithas weithio i gynyddu ei heffaith a helpu i siapiau trafodaethau ar faterion o bwys cenedlaethol i Gymru. Mae rhanddeiliaid am weld y Gymdeithas yn ystyried ehangu ei diffiniad o'r hyn mae 'dysgedig' yn ei olygu.

Cafwyd cadarnhad yn ein hadroddiad Rhanddeiliaid ar waith ac arweinyddiaeth y Gymdeithas - caiff y sefydliad ei ystyried yn awdurdodol, annibynnol, credadwy a meddylgar. Mae rhanddeiliaid a Chymrodyr am i'r Gymdeithas adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn i helpu i bweru Cymru yn ei blaen ac ysbrydoli'r genhedlaeth

nesaf o ymchwilwyr, academyddion a phobl ddysgedig. Mae rhanddeiliaid yn credu na chafwyd cyfnod pwysicach erioed i lais y Gymdeithas gael ei glywed gyda materion pwysig, tymor hir i'w trafod o fewn bywyd cyhoeddus ac argyfwng ymddiriedaeth mewn sefydliadau a gyda chynghor arbenigol. Rwyf i'n credu bod ein rhanddeiliaid yn iawn. Mae'r neges yn glir - mae awydd i weld eich Cymdeithas yn gwneud mwy.

Fel ein chwaer academiâu yng Nghaeredin a Dulyn, mae ein rheoliadau'n caniatáu i ni gael cymrodoriaeth hollgynhwysol. Ond ydym ni'n ddigon amrywiol?

Rydym ni'n gwneud cynnydd ar rywedd – heddiw mae 20% o'r Gymrodoriaeth yn fenywaidd, cyfran sydd wedi dyblu mewn chwe blynedd. Ond beth am oed, ac yn benodol a ydym ni'n manteisio ar ein rheolau i ethol cymrodyr o fyd busnes, y celfyddydau, llywodraeth, y trydydd sector, y cyfryngau a mwy. Bydd yn Gymdeithas gyfoethocach fyth os gall adnabod ac ethol y dalent sydd allan yna. Fel y clywsoch ynghynt, mae'r Athro Terry Threadgold yn gwneud gwaith rhagorol i ehangu'r gymrodoriaeth.

Mae angen i Gymrodyr dynnu ar eu profiad a'u cysylltiadau a gwneud enwebiadau. Os ydym ni'n ehangu'r gronfa, byddwn yn cynyddu'r dewis a hyd yn oed yn cyfoethogi'r ansawdd wrth i ni ddod yn fwy amrywiol ac felly'n fwy effeithiol ac yn well adlewyrchiad o gymdeithas.

Nododd yr arolwg rhanddeiliaid fod angen i ni fod yn gliriach ynghylch yr hyn rydym ni'n ei wneud ac yn well o ran cyfathrebu. Rwy'n cytuno. Efallai fod ein hadnoddau staffio ac ariannol yn fach. Fodd bynnag mae gennym un adnodd rhagorol – ein cymrodoriaeth. Pan fydd Cymrodyr ag arbenigedd cyfreithiol a gwleidyddol yn dod at ei gilydd rydym ni wedi llunio barn y cydnabyddir gan bwyllgorau'r Cynulliad ac eraill ei bod yn uchel iawn ei safon. Yn yr un modd ar faterion economaidd rhanbarthol gyda dau symposiwm rhagorol.

Nid yw'n anodd nodi meysydd ble gallwn wneud cyfraniad adeiladol gwirioneddol. Bydd y GIG yn dathlu saith deng mlwyddiant ym mis Gorffennaf - ond beth am y saith deng mlynedd nesaf? Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cynullwyd grŵp o Gymrodyr i ymateb i'r Adolygiad Seneddol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys y potensial enfawr i harneisio pŵer data mawr i fodelu senarios yn y dyfodol. Mae mwy o waith yn edrych i'r dyfodol ar y gweill.

Mae hwn yn fodel yr hoffwn ei weld yn cael ei atgynhyrchu mewn meysydd eraill. Mae gan y Gymdeithas arbenigedd eang. Oes modd ni ei ddefnyddio'n fwy effeithiol mewn rhagor o feysydd? Po fwyaf y gall Cymrodyr ei gyfrannu, y mwyaf y bydd eich Cymdeithas yn gallu ei wneud. Y mwyaf a wnawn, y mwyaf y bydd y Gymdeithas yn cael ei chydabod a'r mwyaf mae'n gallu ymarfer ei 'grym meddal' cynyddol. Po fwyaf yw'r gwerthfawrogiad o'n gwaith, y cliraf yw'r budd i Gymdeithas Cymru a Chymrodyr unigol. Mae'n ddadl gylchol ond os gallwn sbarduno'r gymrodoriaeth daw'n gynyddol yn sefyllfa o ennill i bawb.

Wrth edrych ymlaen rwyf i'n hyderus fod y Gymdeithas yn y lle iawn a'i bod yn symud ymlaen yn gryf. Rydym ni wedi cyflawni cymaint mewn cyfnod byr. Mae'r sylfeini wedi'u gosod yn gadarn. Mae'r agenda arfaethedig yn gymhleth ac mae gennym rôl ddylanwadol bosibl yn nyfodol ein cenedl. Mae Cymru'n wynebu cyfnod

anodd, ac yn fy marn i caiff ei heffeithio'n fwy negyddol gan Brexit na'r rhan fwyaf o rannau eraill y DU. Mae adnoddau'r wlad yn gyfyngedig.

Yr hyn sydd o'n plaid yw gallu cynhenid ein pobl. Bydd harneisio a datblygu'r sgiliau hynny'n hanfodol os yw Cymru i ffynnu yn yr amgylchiadau newydd hyn. Bydd ansawdd ein haddysg ar bob lefel, addysgu, ysgolheictod ac ymchwil, arloesi, yn pennu pa mor llwyddiannus y gallwn fod.

Gallai'r Gymdeithas Ddysgedig a'i Chymrodwr fod yn hanfodol wrth gyflawni'r llwyddiant mae ein cenedl yn ei haeddu. Mae gennym ni'r potensial, os gallwn harneisio ein hadnoddau, i wneud llawer mwy dros y blynyddoedd nesaf.

Diolch yn fawr.

Syr Emyr Jones Parry

president@lsw.wales.ac.uk